



WALES AUDIT OFFICE  
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru  
Auditor General for Wales

# Adolygiad o drefniadau ansawdd a diogelwch gweithredol – **Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda**

Blwyddyn archwilio: 2018

Dyddiad cyhoeddi: Mehefin 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 14372019-20

Mae'r ddogfen hon wedi'i pharatoi fel rhan o'r gwaith a berfformiwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Mewn achos o dderbyn cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Mae cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus o ran trin ceisiadau, gan gynnwys ymgynghori gyda thrydydd partion. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partion perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch datgelu neu ail-ddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn [infoofficer@audit.wales](mailto:infoofficer@audit.wales).

Rydym yn derbyn gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Roedd y tîm wnaeth gyflawni'r gwaith hwn yn cynnwys Anne Beegan a Phil Jones.

# Cynnwys

Erbyn hyn mae gan y Bwrdd Iechyd rai trefniadau ansawdd a diogelwch da ar lefel cyfarwyddiaeth, wedi'u cefnogi gan ddatblygu trefniadau corfforaethol ond nid yw'r rhain yn gyson eto, ac nid yw'r llif sicrwydd gan gyfarwyddiaethau i'r Bwrdd mor effeithiol ag y gallai fod.

## Adroddiad cryno

Cyflwyniad	4
Canfyddiadau'r archwiliadau	5
Argymhellion	5

## Adroddiad manwl

Mae rhai trefniadau ar lefel cyfarwyddiaeth yn dda, ond nid ydynt yn ddigon cyson	7
Mae trefniadau corfforaethol yn datblygu ond mae'r gallu yn y timau archwilio clinigol a phrofiad y claf yn broblem ac nid yw dysgu cyffredin mor amlwg ag y gallai fod	9
Mae'r Is-bwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad Gweithredol yn esblygu gyda'r cyfle i gael mwy o sicrwydd gan gyfarwyddiaethau a chanolbwyntio mwy ar risgiau allweddol, ond mae presenoldeb yn broblem	10
Mae gweithrediad y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Sicrwydd Profiad yn gwella ond mae angen gwaith i fynd i'r afael â phresenoldeb mewn dau o'i is-bwyllgorau eraill a gwella ansawdd papurau	13

## Atodiadau

Atodiad 1 - Ymateb rheolwyr	14
-----------------------------	----

# Adroddiad cryno

## Cyflwyniad

- 1 Yn ein [hadroddiad Asesiad Strwythuredig](#) 2017 ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (y Bwrdd Iechyd), nodwyd gennym fod angen i dimau'r gyfarwyddiaeth weithredol ar y pryd aeddfedu, a bod angen datblygu'r strwythurau gweithredol ymhellach, i gefnogi trefniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd, yn enwedig mewn perthynas ag ansawdd a diogelwch.
- 2 Nodwyd hefyd bod angen gwelliannau i sicrhau bod y Bwrdd yn cael y sicrwydd angenrheidiol gan ei bwyllgorau, yn benodol, gan ei Bwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Sicrwydd Profiad (QSEAC). Roedd gwaith ar y gweill i ad-drefnu'r QSEAC a'i strwythurau ategol ar y pryd, gyda'r nod o wella llifau sicrwydd.
- 3 Yn ein [hadroddiad Asesiad Strwythuredig](#) 2018, nodwyd gennym ymhellach fod y Bwrdd Iechyd yn parhau i atgyfnerthu trefniadau llywodraethu a rheoli, ond cydnabyddir bod rhai gwendidau o hyd mewn trefniadau llywodraethu ansawdd a diogelwch. Nodwyd bod gwaith wedi cael ei wneud i ailedrych ar y strwythurau cefnogi QSEAC, a'u mireinio, ond mae agendâu yn parhau i fod yn hir, mae dyblygu'n bodoli rhwng is-bwyllgorau ac mae llawer o'r materion a drafodir yn y sefyllfa orau ar lefel weithredol.
- 4 Fel rhan o'n cynllun archwilio 2018 ar gyfer y Bwrdd Iechyd, fe wnaethom gynnwys gwaith lleol i adolygu trefniadau ansawdd a diogelwch gweithredol y Bwrdd Iechyd. Dechreuodd yr adolygiad hwn ym mis Medi 2018 ac roedd yn gofyn y cwestiwn canlynol: **Ydy trefniadau a strwythurau ansawdd a diogelwch gweithredol y Bwrdd Iechyd yn effeithiol?**
- 5 Wrth ymgymryd â'r gwaith hwn, rydym wedi archwilio trefniadau a strwythurau ar lefel cyfarwyddiaeth<sup>1</sup> a lefel gorfforaethol. Rydym hefyd wedi archwilio'r trefniadau a'r strwythurau ar lefel pwyllgor. Mae hyn wedi cynnwys QSEAC a'i is-bwyllgorau ategol, yn enwedig yr Is-bwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad Gweithredol (QSESC Gweithredol).
- 6 Mae ein gwaith wedi cynnwys cyfweiliadau gyda holl uwch dimau rheoli'r gyfarwyddiaeth yn ogystal ag uwch arweinwyr ar gyfer ansawdd a diogelwch ar draws y Bwrdd Iechyd. Rydyn ni hefyd wedi adolygu dogfennaeth gan gynnwys cofnodion cyfarfodydd, papurau pwyllgorau, strwythurau sefydliadol a chofrestrau risg. Rydyn ni wedi arsylwi'r QSEAC a'r QSESC Gweithredol.

<sup>1</sup>Rydym wedi adolygu deg cyfarwyddiaeth. Mae'r rhain yn cynnwys pedair cyfarwyddiaeth ysbyty (Bronglais, Glangwili, Ysbyty'r Tywysog Philip a Llwynhelyg), tair cyfarwyddiaeth sirol (Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro), a thair cyfarwyddiaeth ar draws y Bwrdd Iechyd (Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu, Gofal wedi'i Drefnu, Merched a Phlant).

## Crynodeb o'r canfyddiadau

- 7 Rydym wedi dod i'r canlyniad bod gan y Bwrdd Iechyd erbyn hyn rai trefniadau ansawdd a diogelwch da ar lefel cyfarwyddiaeth, wedi'u cefnogi gan ddatblygu trefniadau corfforaethol ond nid yw'r rhain yn gyson eto, ac nid yw'r llif sicrwydd gan gyfarwyddiaethau i'r Bwrdd mor effeithiol ag y gallai fod.
- 8 Wrth ddod i'r canlyniad hwn rydyn ni wedi canfod y canlynol:
- mae rhai trefniadau ar lefel cyfarwyddiaeth yn dda, ond nid ydynt yn ddigon cyson;
  - mae trefniadau ansawdd a diogelwch corfforaethol yn datblygu ond mae'r gallu o fewn y timau archwilio clinigol a phrofiad y claf yn broblem ac nid yw dysgu cyffredin mor amlwg ag y gallai fod;
  - mae'r is-bwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad Gweithredol yn esblygu gyda'r cyfle i gael mwy o sicrwydd gan gyfarwyddiaethau a chanolbwyntio mwy ar risgiau allweddol, ond mae presenoldeb yn broblem; ac
  - mae gweithrediad QSEAC yn gwella ond mae angen gwaith i fynd i'r afael â phresenoldeb mewn dau o'i is-bwyllgorau eraill a gwella ansawdd papurau.
- 9 Rydyn ni'n archwilio'r canfyddiadau hyn yn fanylach yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

## Argymhellion

- 10 Wrth ymgymryd â'r gwaith hwn, rydym wedi nodi nifer o argymhellion. Mae ein canfyddiadau wedi'u nodi yn **Enghraifft 1** isod.

### Enghraifft 1: argymhellion

Argymhellion	
R1	I wella cysondeb, dylai'r Bwrdd Iechyd gyflwyno dull safonol o ymdrin â'r trefniadau ansawdd a diogelwch o fewn y cyfarwyddiaethau gweithredol. Dylai'r dull safonol fod yn berthnasol i strwythurau, aelodaeth graidd, amllder cyfarfodydd ac eitemau craidd yr agenda i'w trafod. Rhaid i'r trefniadau cyfarwyddwyr sirol gynnwys ystyriaeth o faterion ansawdd a diogelwch gofal sylfaenol.
R2	Er mwyn sicrhau bod dull amlddisgyblaeth yn cael ei rhoi ar waith wrth ystyried materion ansawdd a diogelwch, dylai'r Bwrdd Iechyd annog a chefnogi presenoldeb gan staff meddygol perthnasol mewn cyfarfodydd ar draws y strwythurau.

## Argymhellion

- R3 I wella ansawdd a llif sicrwydd diogelwch rhwng y cyfarwyddiaethau a'r Bwrdd, dylai'r Bwrdd lechyd:
- uno'r Is-bwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu gyda'r QSESC Gweithredol;
  - sicrhau bod gan y gyfarwyddiaeth Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu bwyllgor llywodraethu ar lefel y gyfarwyddiaeth;
  - alinio yr holl bwyllgorau llywodraethu ar lefel cyfarwyddiaeth fel eu bod nhw'n darparu adroddiad yn uniongyrchol i'r QSESC Gweithredol; a
  - chyflwyno templed adroddiad safonol i'r holl gyfarwyddiaethau er mwyn cyflwyno i'r QSESC Gweithredol, gyda fersiwn wedi'i chrynhofio i'r QSEAC.
- R4 I wella ffocws y QSESC gweithredol, dylai'r is-bwyllgor gynnwys sicrwydd yn ei weithgareddau bod yr hyn sy'n cael ei ddysgu o'r risgiau a'r cynlluniau gweithredu yn cael ei rannu ar draws y cyfarwyddiaethau. Dylai risgiau y dylid eu trafod gynnwys risgiau difrifol ac uchel, yn ogystal â risgiau sy'n effeithio ar nifer o gyfarwyddiaethau.
- R5 I wella ansawdd a llif sicrwydd diogelwch i'r QSEAC, dylai'r Bwrdd lechyd:
- gefnogi ac annog presenoldeb yn yr is-bwyllgor Gwella Profiad a'r is-bwyllgor Arfer Clinigol Effeithiol; ac
  - ailystyried cwmpas yr is-bwyllgor Arfer Clinigol Effeithiol.
- R6 Er mwyn cefnogi'r defnydd effeithiol o adnoddau timau corfforaethol cyfyngedig, dylai'r Bwrdd lechyd ystyried cyfuno trefniadau llywodraethu'r gwasanaethau sirol ac ysbytai yn unol â'r trefniadau sydd bellach ar waith ar gyfer yr Adolygiadau Perfformiad Gweithredol. Gellir gwneud hyn ar gyfnodau penodol yn ystod y flwyddyn.
- R7 I gefnogi trefniadau llywodraethu'r gyfarwyddiaeth, dylai'r Bwrdd lechyd hwyluso'r broses o gyflwyno'r byrddau ansawdd a diogelwch sy'n seiliedig ar y gyfarwyddiaeth.
- R8 Er mwyn sicrhau y caiff ansawdd a diogelwch eu hystyried o safbwynt proffesiynol a gweithredol, mae angen i'r Cyfarwyddwr Meddygol a'r Cyfarwyddwr Strategaeth Glinigol sicrhau bod y Cyfarwyddwr Meddygol Cysylltiol (AMD) ar gyfer Ansawdd a Diogelwch yn y strwythur y gyfarwyddiaeth feddygol newydd yn gweithio'n agos gyda'r ddwy swydd AMD gweithredol newydd ar gyfer gofal sylfaenol ac eilaidd.

# Adroddiad manwl

## Mae rhai trefniadau ar lefel cyfarwyddiaeth yn dda, ond nid ydynt yn ddigon cyson

- 11 Mae ein gwaith wedi nodi bod pob un o'r cyfarwyddiaethau yn trafod materion ansawdd a diogelwch, ond mae amrywiaeth yn y strwythurau ansawdd a diogelwch lleol ac yn nyfnder y drafodaeth.
- 12 Mae chwech o'r cyfarwyddiaethau yn cynnal cyfarfodydd llywodraethu ar wahân sy'n canolbwyntio ar ansawdd a diogelwch yn unig. Mae'r cyfarfodydd hyn ar y lefel uchaf o fewn y cyfarwyddiaethau perthnasol ac yn cyd-redeg â'r cyfarfodydd busnes arferol sy'n canolbwyntio ar gyllid a pherfformiad. Ac eithrio cyfarwyddiaeth ysbyty'r Tywysog Philip, mae'r cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn fisol ac yn cwmpasu ystod eang o agweddau ar ansawdd a diogelwch. Mae cyfarwyddiaeth ysbyty'r Tywysog Philip yn cynnal cyfarfodydd llywodraethu bob deufis.
- 13 Mae tri o'r cyfarwyddiaethau yn cynnwys materion ansawdd a diogelwch fel rhan o gyfarfodydd misol y tîm busnes neu reoli. Mae'r cyfarfodydd hyn yn cael eu cynnal bob mis hefyd, ond mae'r drafodaeth wedi'i chyfyngu i bryderon, cwynion a risgiau.
- 14 Ar gyfer y Gyfarwyddoeth Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu, mae ansawdd a diogelwch ar lefel y gyfarwyddiaeth yn ganolbwyntio i is-bwyllgor penodedig sy'n adrodd yn uniongyrchol i'r QSEAC. Mae hyn yn golygu bod y trafodaethau ar gyfer y gyfarwyddiaeth hon yn digwydd ar lefel llawer uwch o fewn y Bwrdd Iechyd. Mae hwn yn drefniant hanesyddol o ganlyniad i bryderon blaenorol, nad ydynt bellach yn amlwg. Mae'r agendâu yn cwmpasu amrywiaeth eang o faterion ansawdd a diogelwch, ond cyfyngir ar amllder cyfarfodydd i bob deufis.
- 15 Mae'r trefniadau wedi'u nodi yn **Enghraifft 2** isod.

### Enghraifft 2: trefniadau cyfarwyddiaeth ar gyfer ansawdd a diogelwch

Cyfarwyddiaeth	Pwyllgor	Canolbwyntio'n llwyr ar ansawdd a diogelwch	Amllder
Bronglais	Pwyllgor Rheoli'r Ysbyty	Naddo	Misol
Sir Gaerfyrddin	Tîm Rheoli'r Sir	Naddo	Misol
Ceredigion	Tîm Rheoli'r Sir	Naddo	Misol
Glangwili	Llywodraethu	Do	Misol
Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu	Is-bwyllgor QSEAC	Do	Bob deufis
Sir Benfro	Llywodraethu	Do	Misol
Ysbyty'r Tywysog Philip	Llywodraethu	Do	Bob deufis

Cyfarwyddiaeth	Pwyllgor	Canolbwyntio'n llwyr ar ansawdd a diogelwch	Amlder
Gofal wedi'i Drefnu	Llywodraethu	Do	Misol
Llwynhelyg	Llywodraethu	Do	Misol
Merched a Phlant	Llywodraethu	Do	Misol

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o gyfweiliadau a dogfennau

- 16 Yn y chwe chyfarwyddiaeth sydd â chyfarfodydd llywodraethu ar wahân, mae ystod dda o eitemau ar yr agenda. Yn ogystal â phryderon, cwynion a risgiau, mae eitemau'r agenda yn cynnwys
- cydymffurfio gyda Chylchlythyrau Iechyd Cymru;
  - adroddiadau Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru;
  - canlyniadau archwiliadau, yn fewnol ac yn allanol;
  - adroddiadau'r Coleg Brenhinol;
  - canlyniadau ymweliadau Cynghorau Iechyd Cymunedol;
  - digwyddiadau difrifol;
  - adolygiadau marwolaethau; a
  - phrofiad y claf.
- 17 Fodd bynnag, nid yw ystod y drafodaeth yn gyson nac wedi'i safoni ar draws chwe chyfarfod llywodraethu'r cyfarwyddiaethau.
- 18 Yn y tair cyfarwyddiaeth lle mae ansawdd a diogelwch yn cael eu hystyried fel rhan o gyfarfodydd busnes ehangach, mae'r cyfarwyddiaethau perthnasol yn dibynnu ar gefnogi grwpiau sicrwydd sydd islaw lefel y cyfarwyddiaethau. Fodd bynnag, nid yw adroddiadau gan y grwpiau hyn ar gael bob amser ar gyfer cyfarfodydd y tîm rheoli. Mae hyn yn arbennig o wir am gyfarwyddiaeth Ceredigion.
- 19 Ar draws yr holl gyfarwyddiaethau sirol, prin yw'r ffocws ar agweddau ansawdd a diogelwch y ddarpariaeth gofal sylfaenol o fewn y cyfarfodydd llywodraethu a rheoli. Mae ansawdd a diogelwch gofal sylfaenol yn cael ei reoli yn lle hynny drwy'r tîm gofal sylfaenol canolog sy'n adrodd yn uniongyrchol i'r Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol, Gofal Cymunedol a Gofal Hirdymor.
- 20 Dros y chwe mis diwethaf mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu dangosfwrdd ansawdd a diogelwch. Fe'i datblygwyd ar gyfer y QSEAC i ddechrau, a'r bwriad yw datblygu dangosfyrddau sylfaenol ar gyfer pob un o'r cyfarwyddiaethau. Mae ein gwaith wedi nodi nad yw dangosfyrddau'r cyfarwyddiaethau ar waith eto, er bod y cyfarwyddiaethau yn defnyddio'r ffynonellau gwybodaeth perthnasol. Fodd bynnag, mae dangosfwrdd pwrpasol ar gael i gefnogi'r gyfarwyddiaeth merched a phlant, gan ganolbwyntio'n bennaf ar wasanaethau mamolaeth.



- 21 Mae penaethiaid nyrsio a rheolwyr cyffredinol cyfarwyddiaethau yn ysgogi'r agendâu ansawdd a diogelwch i raddau helaeth. Lle bo ansawdd a diogelwch yn rhan o'r cyfarfodydd busnes arferol, mae'r aelodaeth yn seiliedig i raddau helaeth ar dîm craidd y gyfarwyddiaeth. Ar gyfer cyfarwyddiaethau sydd â chyfarfodydd llywodraethu, mae aelodaeth yn fwy ac yn fwy amlddisgyblaethol. Mae'r gynrychiolaeth o'r proffesiynau nyrsio a therapi yn dda, ac mae presenoldeb rheolaidd gan dimau corfforaethol yn cynnwys profiad y claf, archwilio clinigol a gwneud iawn.
- 22 Mae cyfarwyddwyr clinigol ac arweinwyr clwstwr yn aelodau o bob strwythur ansawdd a diogelwch, ond ar y cyfan mae cynrychiolaeth feddygol mewn cyfarfodydd yn gyfyngedig gyda phresenoldeb rhannol yn aml neu ymddiheuriadau'n cael eu hanfon. Nododd cyfarwyddiaethau heriau o ran cynnwys meddygon yn yr agenda ansawdd a diogelwch, gan gynnwys pryderon, cwynion a digwyddiadau yn bennaf oherwydd cyfyngiadau amser o ran ymrwymadau clinigol.
- 23 Mae gan bob cyfarwyddiaeth ei fforymau nyrsio proffesiynol ei hun i ddod â nyrsys arweiniol o bob un o'r adrannau sylfaenol ynghyd i ystyried ansawdd a diogelwch. Mae'r fforymau hyn yn bwydo i mewn i'r trafodaethau ansawdd a diogelwch yn y cyfarwyddiaethau a chyfarfodydd yr uwch dîm nyrsio ar draws y Bwrdd Iechyd gyda'r Cyfarwyddwr Nyrsio, Ansawdd a Phrofiad y Claf.

## Mae trefniadau ansawdd a diogelwch corfforaethol yn datblygu ond mae'r gallu o fewn y timau archwilio clinigol a phrofiad y claf yn broblem ac nid yw dysgu cyffredin mor amlwg ag y gallai fod

- 24 Mae gan y Bwrdd Iechyd dimau corfforaethol ar waith i gefnogi agweddau allweddol ar ansawdd a diogelwch, gan gynnwys pryderon, cwynion, digwyddiadau difrifol, profiad cleifion ac archwiliadau clinigol. Mae'r timau hyn yn adrodd yn uniongyrchol i'r Cyfarwyddwr Nyrsio, Ansawdd a Phrofiad y Claf.
- 25 Mae'r timau corfforaethol hyn wedi gweithio ar eu pennau eu hunain o'r blaen. Mae'r Cyngor Iechyd Cymunedol, yn benodol, wedi mynegi pryderon ynghylch yr amrywioldeb yn y broses o reoli materion, a'r dulliau gwahanol o fewn pob tîm. Drwy gyfarfodydd yr uwch dîm nyrsio, mae'r timau corfforaethol hyn wedi dod yn fwy cysylltiedig yn ystod y 12 mis diwethaf, gyda dulliau yn dechrau dod yn fwy cyson.
- 26 Fodd bynnag, mae capasiti o fewn y timau corfforaethol yn broblem. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC) yn ymwybodol o'r cyfyngiadau ar gapasiti o fewn y tîm archwilio clinigol, ac mae meincnod y Bwrdd Iechyd ei hun yn dangos mai capasiti profiad y claf yw'r isaf yng Nghymru. Er bod y Bwrdd wedi cefnogi fframwaith profiad cleifion newydd ym mis Rhagfyr 2018, dim ond yn

ddiweddar y darparwyd arian i helpu i gyflwyno'r system 'Prawf Ffrindiau a Theuluoedd'.

- 27 Ym mis Gorffennaf 2018, cymeradwyodd y Bwrdd Fframwaith Strategol Gwella Ansawdd y Bwrdd Iechyd. Mae hyn yn rhoi mwy o bwyslais ar rannu'r hyn sy'n cael ei ddysgu o weithgareddau gwella. Mae pob un o'r timau corfforaethol yn canolbwyntio ar ddysgu; fodd bynnag, mae capasiti yn golygu bod sylw'n cael ei dynnu at gefnogi'r cyfarwyddiaethau i ymateb i achosion a digwyddiadau wrth iddynt godi, gan gyfyngu ar allu'r timau corfforaethol i rannu'r hyn sy'n cael ei ddysgu yn ehangach er mwyn atal y problemau rhag digwydd eto. Lansiodd y Bwrdd Iechyd y Fframwaith Strategol Gwella Ansawdd yn ffurfiol ym mis Mawrth 2019, ac fe ddylai ddechrau helpu i hyrwyddo'r agenda ddysgu yn ehangach.
- 28 Mae nifer y cyfarwyddiaethau o fewn y Bwrdd Iechyd hefyd yn gosod gofynion ar gapasiti'r timau corfforaethol, yn enwedig mewn perthynas â mynychu cyfarfodydd llywodraethu. Gallai dwyn ynghyd rai o'r trefniadau ansawdd a diogelwch o fewn cyfarwyddiaethau, fel cyfarwyddiaethau sirol a chyfarwyddiaethau ysbyty, helpu i leihau'r cyfyngiadau capasiti ar y timau corfforaethol. Byddai hyn yn cyd-fynd â'r dullsy'n cael ei ddefnyddio yn yr Adolygiadau o Berfformiad y Bwrdd Gweithredol, sydd yn ystyried perfformiad cyfarwyddiaethau sirol a chyfarwyddiaethau ysbyty ar y cyd yn gynyddol.
- 29 Mae ansawdd a diogelwch hefyd yn gyfrifoldeb proffesiynol i'r Cyfarwyddwr Meddygol a Chyfarwyddwr y Strategaeth Glinigol. Mae diwygiadau'n cael eu gwneud ar hyn o bryd i strwythur y Gyfarwyddiaeth Feddygol, gyda Chyfarwyddwr Meddygol Cyswllt (AMD) newydd arfaethedig yn arwain o ran ansawdd a diogelwch. Yn ogystal â hynny, mae dwy swydd AMD gweithredol newydd ar gyfer gofal sylfaenol ac eilaidd, sydd wedi'u dylunio i roi cefnogaeth o ddydd i ddydd i'r cyfarwyddiaethau ar faterion sy'n ymwneud â materion meddygol. Bydd yn bwysig i'r swyddi hyn weithio gyda'i gilydd i sicrhau nad yw ansawdd a diogelwch yn cael eu rheoli ar wahân ond ar y cyd ar draws meysydd gweithredol a phroffesiynol.

## Mae'r is-bwyllgor ansawdd, diogelwch a phrofiad gweithredol yn esblygu gyda'r cyfle i gael mwy o sicrwydd gan gyfarwyddiaethau a chanolbwyntio mwy ar risgiau allweddol, ond mae presenoldeb yn problem

- 30 Ym mis Gorffennaf 2018, fe wnaeth yr Is-bwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad Sylfaenol a Chymunedol uno gyda'r Is-bwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad Aciwt i greu'r Is-bwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad Gweithredol (QSESC).
- 31 Mae'r QSESC gweithredol newydd wedi cyfarfod chwe gwaith ac mae'n dal i ddatblygu. Mae'n cyfarfod bob deufis ac yn adrodd yn uniongyrchol i'r QSEAC. Mae'n un o wyth is-bwyllgor sy'n adrodd i QSEAC, gyda chynlluniau hefyd i uno'r

QSESC Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu i'r QSESC Gweithredol ar ôl i'r is-bwyllgor presennol gael ei sefydlu'n llawn.

- 32 Fodd bynnag, nid yw'r QSESC Gweithredol yn gweithio'n effeithiol eto. Mae aelodaeth yn fawr gyda 24 o aelodau gan ei fod yn ceisio cynnwys cynrychiolaeth o bob cyfarwyddiaeth a'r holl dimau corfforaethol, ond mae presenoldeb gan rai aelodau yn broblem. Ar gyfer y tri chyfarfod a gynhaliwyd rhwng mis Medi 2018 a mis Ionawr 2019, ni chynrychiolwyd hanner yr aelodau, gan gynnwys nifer o'r cyfarwyddiaethau. Fodd bynnag, traean o'r aelodau yw'r cworwm y cytunwyd arno ar gyfer y cyfarfod. Fodd bynnag, mae presenoldeb gan grŵp ehangach o staff y tu allan i'r rhai a nodwyd ar y cylch gorchwyl ([Enghraifft 3](#)).

### Enghraifft 3: presenoldeb yn y QSESC Gweithredol

	Nifer yr aelodau (neu gynrychiolwyr) yn bresennol	Nifer o aelodau nad oedden nhw'n bresennol nac yn cael eu cynrychioli	Cyfanswm nifer y staff yn bresennol gan gynnwys aelodau (neu gynrychiolwyr)
Medi 2018	12	12	17
Tachwedd 2018	12	12	20
Ionawr 2019	11	13	15

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddogfennau

- 33 Nod yr is-bwyllgor yw ceisio sicrwydd gan y cyfarwyddiaethau bod camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â materion ansawdd a diogelwch drwy adrodd ar eithriadau. Fodd bynnag, nid yw cyfarwyddiaethau bob amser yn bresennol yn y cyfarfodydd i adrodd yn ôl neu, yn aml, nid oes unrhyw faterion i adrodd amdanynt. Mae'r is-bwyllgor hefyd yn ceisio monitro'r modd mae risgiau gweithredol yn cael eu rheoli, ond mae nifer y risgiau sydd angen eu hystyried wedi golygu bod hyn yn amhosibl i'w reoli o fewn yr amser oedd ar gael mewn cyfarfodydd.
- 34 Fodd bynnag, mae risgiau a chynlluniau gweithredu i fynd i'r afael â materion ansawdd a diogelwch yn cael eu hystyried yn gynyddol fel rhan o Adolygiadau Perfformiad Gweithredol gyda'r cyfarwyddiaethau, gan achosi'r risg o ddyblygu rhwng yr EPRs a busnes yr is-bwyllgor. Mae risgiau a chynlluniau gweithredu hefyd yn cael eu hystyried gan fforymau gweithredol perthnasol.
- 35 I leihau'r risg o ddyblygu, dylai'r is-bwyllgor ganolbwyntio ar gael sicrwydd bod yr hyn sy'n cael ei ddysgu o'r risgiau a'r cynlluniau gweithredu yn cael ei rannu ar draws y cyfarwyddiaethau. Dylai hyn gynnwys risgiau difrifol ac uchel, yn ogystal â risgiau sy'n effeithio ar nifer o gyfarwyddiaethau.

- 36 Fodd bynnag, nid yw pob un o'r cyfarwyddiaethau yn cael eu cynrychioli yn yr is-bwyllgor, ac mae'r is-bwyllgor Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu yn canolbwyntio ar y broses o adrodd yn ôl i QSEAC.
- 37 Nid yw gofal sylfaenol yn nodwedd allweddol o'r is-bwyllgor chwaith er gwaethaf ei gwmpas. Mae ein gwaith wedi nodi ei bod hi'n ymddangos bod materion ansawdd a diogelwch gofal sylfaenol yn cael eu hadrodd a'u rheoli i raddau helaeth drwy strwythurau gweithredol i'r Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol, Gofal Cymunedol a Gofal Hirdymor, gyda chraffu a sicrwydd cyfyngedig trwy unrhyw rai o strwythurau pwyllgor y Bwrdd. Mae hyn yn peri pryder arbennig o ystyried y newidiadau diweddar i'r cynllun indemniad meddygon teulu sy'n ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd gael dealltwriaeth lawer gwell o lefel y risgiau o ran ansawdd a diogelwch maen nhw'n eu cyflawni ym maes gofal sylfaenol.
- 38 Fel strwythurau'r cyfarwyddiaethau, mae aelodaeth feddygol ar yr is-bwyllgor ond mae presenoldeb yn bennaf gan Gyfarwyddwr Meddygol Cyswllt neu gadeiryddion is-grwpiau, er enghraifft, yr is-grŵp Set Dysgu Ymateb Cyflym i Salwch Aciwt (PRAILS), er y gall eu presenoldeb fod yn gyfyngedig i ran o'r cyfarfod oherwydd ymrwymadau clinigol eraill.
- 39 Mae gan yr is-bwyllgor nifer o grwpiau y mae'n cymryd sicrwydd ohonynt. Mae'n cael sicrwydd da gan y Grŵp Dyfeisiau Meddygol a'r Grŵp Cydsyniad a Ddeddf Galluedd Meddyliol. Mae'n cael sicrwydd hefyd gan y Grŵp Maethiad a Hydradu, er eu bod yn cydnabod mai dim ond ar ofal cleifion mewnol mae'r grŵp hwn yn canolbwyntio. Mae presenoldeb yn y Grŵp Rhoi Organau a'r Grŵp PRAILS, fodd bynnag, wedi bod yn broblemus gan arwain at ganslo cyfarfodydd. Er bod y grwpiau hyn yn rhoi sicrwydd, nid yw'r rhain yn digwydd mor aml ag y dylent.
- 40 Yn ogystal â dyblygu gyda'r EPRs, mae rhywfaint o ddyblygu hefyd rhwng yr is-bwyllgor a QSEAC o ran trafodaethau ar yr eitemau ar yr agenda. Mae peth o hyn yn dibynnu ar y diben o gynnal trafodaethau cychwynnol cyn cael trafodaeth fwy penodol yn QSEAC, ond nid yw hyn yn wir bob amser.
- 41 Fodd bynnag, nid yw'r is-bwyllgor yn gallu rhoi sicrwydd eto i'r QSEAC fod materion ansawdd a diogelwch gweithredol yn cael eu rheoli. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw adroddiadau ffurfiol safonol gan y cyfarwyddiaethau i'r is-bwyllgor a dibynnir yn bennaf ar adroddiadau eithriadau. O ganlyniad, mae bwch rhwng y QSEAC a thimau'r cyfarwyddiaethau.
- 42 Mae gan yr is-bwyllgor y potensial i fynd i'r afael â hyn drwy geisio sicrwydd safonol gan bob cyfarwyddiaeth, neu gyfarwyddiaethau cyfun, ar ystod o faterion ansawdd a diogelwch, drwy gyfrwng adroddiad safonol. Gellir crynhoi'r rhain wedyn i roi sicrwydd ar y cyd i'r QSEAC, ac yn y pen draw, i'r Bwrdd.

## Mae gweithrediad QSEAC yn gwella ond mae angen gwaith i fynd i'r afael â phresenoldeb mewn dau o'i is-bwyllgorau eraill a gwella ansawdd papurau

- 43 Yn hanesyddol, mae presenoldeb yn y QSEAC wedi bod yn fawr, mae'r agendâu wedi bod yn hir, ac nid yw aelodau'r pwyllgor wedi gallu rhoi sicrwydd ar nifer o eitemau agenda naill ai oherwydd ansawdd y papurau a gyflwynwyd, neu oherwydd canslo cyfarfodydd is-bwyllgorau.
- 44 Mae ein harsylwadau diweddar o'r pwyllgor yn ystod 2019 wedi nodi bod y ffordd mae'r QSEAC yn gweithredu, fodd bynnag, wedi dechrau gwella. Erbyn hyn, mae'r pwyllgor wedi'i fireinio i gynnwys y rhai sydd angen bod yno, a bellach mae swyddogion cyfrifyddu yn cael eu galw i'r cyfarfod ar gyfer eitemau penodol ar yr agenda yn ôl y gofyn. Mae hyn wedi helpu i fynd i'r afael â'r lefelau presenoldeb mawr oedd i raddau helaeth yn cynnwys cynrychiolaeth o dimau corfforaethol.
- 45 Fodd bynnag, mae'r pwyllgor yn dal i gael trafferth cael sicrwydd gan nifer o'i is-bwyllgorau. Mae hyn yn cynnwys y QSESC, oherwydd y rhesymau a nodwyd ym [mharagraffau 32 i 42](#), ond hefyd yr is-bwyllgor Arfer Clinigol Effeithiol a'r is-bwyllgor Gwella Profiad. Mae'r ddau is-bwyllgor hyn wedi cael trafferth gyda phresenoldeb gan ei gwneud hi'n anodd archwilio llawer o eitemau agenda yn llawn ar gyfer y cyfarfodydd hyn. Ar sawl achlysur, mae'r cyfarfodydd hyn hefyd wedi gorfod cael eu canslo oherwydd cyfraddau presenoldeb isel. Mae'r is-bwyllgor Arfer Clinigol Effeithiol hefyd wedi cael trafferth gyda diffyg eglurder ynghylch ei rôl. Mae'r Cyfarwyddwr Meddygol a'r Cyfarwyddwr Strategaeth Glinigol wedi cymryd cyfrifoldeb cadeirydd y pwyllgor hwn yn ddiweddar i wella ei effeithiolrwydd.
- 46 Mae papurau QSEAC yn parhau i fod yn fawr, gyda rhai pryderon o hyd bod gormod o fanylion, sy'n tynnu sylw oddi ar y materion allweddol a'r camau lliniaru sy'n cael eu cymryd. Mae rhai papurau hefyd yn canolbwyntio gormod ar faterion perfformiad sy'n ystyriaeth ar wahân i'r Pwyllgor Cynllunio Busnes a Sicrwydd Perfformiad. Yn rhannol, gall hyn fod oherwydd nad yw'r awduron bob amser yn gallu rhoi'r ffocws cywir i'r QSEAC.
- 47 Mae'r pwyllgor wedi cynnal ymarfer hunanasesu yn ddiweddar sy'n adlewyrchu'r materion sydd wedi cael eu codi drwy ein gwaith. Mae cynllun gweithredu yn cael ei roi ar waith i fwrw ymlaen â llawer o'r meysydd i'w gwella sydd wedi cael eu codi.

# Atodiad 1

## Ymateb rheolwyr

### Enghraifft 4: ymateb rheolwyr i argymhellion

Cyf	Argymhelliad	Ymateb rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
R1	I wella cysondeb, dylai'r Bwrdd Iechyd gyflwyno dull safonol o ymdrin â'r trefniadau ansawdd a diogelwch o fewn y cyfarwyddiaethau gweithredol. Dylai'r dull safonol fod yn berthnasol i strwythurau, aelodaeth graidd, amlder cyfarfodydd ac eitemau craidd yr agenda i'w trafod. Rhaid i'r trefniadau cyfarwyddwyr sirol gynnwys ystyriaeth o faterion ansawdd a diogelwch gofal sylfaenol.	<p>Cytunwyd ar opsiynau ar gyfer safoni'r dull o ymdrin â threfniadau ansawdd a diogelwch. Mae hyn yn cynnwys templedi ar gyfer cylch gorchwyl, agendâu ar gyfer cyfarfodydd ac adroddiadau safonol. Bydd templedi'n cael eu datblygu ar y cyd â'r Tîm Llywodraethu Corfforaethol.</p> <p>Yr is-bwyllgor Gweithredol, Ansawdd a Phrofiad fydd yr is-bwyllgorau trosfwaol ar gyfer materion ansawdd a diogelwch gweithredol, gwasanaethau arbenigol, sylfaenol ac aciwt, gyda grwpiau traws-sefydliadol yn adrodd i OQSEC.</p> <p>Mae materion ansawdd a diogelwch wedi'u cynnwys yng nghyfarfodydd cyfarwyddwyr y sir a bydd hyn yn cael ei fonitro.</p>	Ebrill 2020	Cyfarwyddwr Nyrsio, Ansawdd a Phrofiad y Claf/Ysgrifennydd y Bwrdd
R2	Er mwyn sicrhau bod dull amlddisgyblaeth yn cael ei rhoi ar waith wrth ystyried materion ansawdd a diogelwch, dylai'r Bwrdd Iechyd annog a chefnogi presenoldeb gan staff meddygol perthnasol mewn cyfarfodydd ar draws y strwythurau.	<p>Mae'r gwaith o ailstrwythuro'r Cyfarwyddwr Cyswllt a'r Dirprwy Gyfarwyddwyr Meddygol wedi'i wneud.</p> <p>Mae'r strwythur newydd hwn yn cynnwys penodi Cyfarwyddwr Meddygol Cyswllt newydd ar gyfer Ansawdd a Diogelwch a'r cynnig i gryfhau rolau arweiniol meddygol o ansawdd drwy'r holl wasanaethau.</p>	Hydref 2019	Cyfarwyddwr Meddygol a'r Cyfarwyddwr Strategol

Cyf	Argymhelliad	Ymateb rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
R3a	<p>I wella ansawdd a llif sicrwydd diogelwch rhwng y cyfarwyddiaethau a'r Bwrdd, dylai'r Bwrdd lechyd gyfuno'r Is-bwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad lechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu gyda'r QSESC Gweithredol.</p>	<p>Cytunwyd ar opsiynau ar gyfer safoni'r dull o ymdrin â threfniadau ansawdd a diogelwch. Mae hyn yn cynnwys templedi ar gyfer cylch gorchwyl ac adroddiadau safonol.</p> <p>Yr is-bwyllgor Gweithredol, Ansawdd a Phrofiad fydd yr is-bwyllgorau troswaol ar gyfer materion ansawdd a diogelwch gweithredol, gwasanaethau arbenigol, sylfaenol ac aciwt, gyda grwpiau traws-sefydliadol yn adrodd i QQSEC.</p> <p>Bydd trefniadau pontio ar gyfer newidiadau i drefniadau adrodd ansawdd lechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu yn cael eu datblygu a'u rhoi ar waith gyda'r tîm triwriaeth. Bydd unrhyw eithriadau penodol sydd angen eu ddwysáu i QSEAC yn cael eu dwysáu drwy QQSEAC, a gofynnir i staff priodol fynychu QSEAC fel y bo'n briodol.</p>	Ebrill 2020	<p>Cyfarwyddwr Nyrsio, Ansawdd a Phrofiad y Claf/Ysgrifennydd y Bwrdd</p> <p>Cyfarwyddwr Therapïau a Gwyddorau lechyd</p> <p>Cyfarwyddwr Cinigol lechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu</p>
R3b	<p>I wella ansawdd a llif sicrwydd diogelwch rhwng y cyfarwyddiaethau a'r Bwrdd, dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod gan y gyfarwyddiaeth lechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu bwyllgor llywodraethu ar lefel cyfarwyddiaeth.</p>	<p>Mae pwyllgor llywodraethu lefel cyfarwyddiaeth ar gyfer lechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu. Bydd gwaith yn cael ei gyflawni i atgyfnerthu a safoni'r trefniadau adrodd i QQSEC (fel argymhelliad 1)</p>	Ebrill 2020	<p>Cyfarwyddwr Nyrsio, Ansawdd a Phrofiad y Claf/Ysgrifennydd y Bwrdd</p>

Cyf	Argymhelliad	Ymateb rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
R3c	I wella ansawdd a llif sicrwydd diogelwch rhwng y cyfarwyddiaethau a'r Bwrdd, dylai'r Bwrdd lechyd alinio'r holl bwyllgorau llywodraethu ar lefel cyfarwyddiaeth, fel eu bod nhw i gyda yn adrodd yn uniongyrchol i'r QSESC Gweithredol.	Cytunwyd ar opsiynau ar gyfer safoni'r dull o ymdrin â threfniadau ansawdd a diogelwch. Mae hyn yn cynnwys templedi ar gyfer cylch gorchwyl ac adroddiadau safonol. Yr is-bwyllgor Gweithredol, Ansawdd a Phrofiad fydd yr is-bwyllgorau trosfwaol ar gyfer materion ansawdd a diogelwch gweithredol, gwasanaethau arbenigol, sylfaenol ac aciwt, gyda grwpiau traws-sefydliadol yn adrodd i OQSEC.	Ebrill 2020	Cyfarwyddwr Nyrsio, Ansawdd a Phrofiad y Claf/Ysgrifennydd y Bwrdd
R3d	I wella llif sicrwydd ansawdd a diogelwch rhwng y cyfarwyddiaethau a'r Bwrdd, dylai'r Bwrdd lechyd hyflwyno templed adroddiad safonol i'r holl gyfarwyddiaethau er mwyn cyflwyno i'r QSESC Gweithredol, gyda fersiwn wedi'i chrynhai i'r QSEAC.	Cytunwyd ar opsiynau ar gyfer safoni'r dull o ymdrin â threfniadau ansawdd a diogelwch. Mae hyn yn cynnwys templedi ar gyfer cylch gorchwyl ac adroddiadau safonol (gweler argymhelliad 1).	Ebrill 2020	Cyfarwyddwr Nyrsio, Ansawdd a Phrofiad y Claf/Ysgrifennydd y Bwrdd



Cyf	Argymhelliad	Ymateb rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
R4	<p>I wella ffocws y QSESC gweithredol, dylai'r is-bwyllgor gynnwys sicrwydd yn ei weithgareddau bod yr hyn sy'n cael ei ddysgu o'r risgiau a'r cynlluniau gweithredu yn cael ei rannu ar draws y cyfarwyddiaethau. Dylai risgiau y dylid eu trafod gynnwys risgiau difrifol ac uchel, yn ogystal â risgiau sy'n effeithio ar nifer o gyfarwyddiaethau.</p>	<p>Cytunwyd ar opsiynau ar gyfer safoni'r dull o ymdrin â threfniadau ansawdd a diogelwch. Mae hyn yn cynnwys templedi ar gyfer cylch gorchwyl ac adroddiadau safonol (gweler argymhelliad 1).</p> <p>Cytundeb y bydd risgiau a'r sy'n cael ei ddysgu yn cael eu hymgorffori yn y templedi adrodd safonol. Bydd y templedi hefyd yn rhoi cyngor ar sut mae'r hyn sydd wedi cael ei ddysgu o risgiau a chynlluniau gweithredu yn cael eu rhannu ar draws cyfarwyddiaethau a meysydd eraill.</p> <p>Mae ysgafellau dwfn yn cael eu trafod ym mhob cyfarfod QSESC ar hyn o bryd a bydd hyn yn parhau, bydd y rhain yn cefnogi'r sgwrs fanwl sydd ei hangen. Dylid defnyddio'r Cofrestrau Risg i lywio'r rhain.</p> <p>Mae Grŵp Gwranddo a Dysgu yn cael ei sefydlu i hwyluso dysgu cyffredin ar draws y sefydliad. Bydd trefniadau adrodd ar gyfer y grŵp yn cael eu cwblhau a'u cymeradwyo drwy QSEAC.</p>	Ebrill 2020	<p>Cyfarwyddwr Nyrsio, Ansawdd a Phrofiad y Claf/Ysgrifennydd y Bwrdd</p> <p>Cyfarwyddwr Therapïau a Gwyddorau Iechyd</p> <p>Cyfarwyddwr Nyrsio, Ansawdd a Phrofiad y Claf/Ysgrifennydd y Bwrdd</p>

Cyf	Argymhelliad	Ymateb rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
R5a	I wella ansawdd a llif sicrwydd diogelwch i'r QSEAC, dylai'r Bwrdd lechyd gefnogi ac annog presenoldeb yn yr is-bwyllgor Gwella Profiad ac is-bwyllgor Arfer Clinigol Effeithiol.	<p>Bydd penodi AMD newydd ar gyfer ansawdd a diogelwch a rolau estynedig arweinwyr clinigol yn cefnogi'r gwaith ymgysylltu meddygol ehangach mewn is-bwyllgorau.</p> <p>Adolygwyd y cylch gorchwyl ar gyfer yr is-bwyllgor Gwella Profiad a'r is-bwyllgor Arfer Clinigol Effeithiol, gan gynnwys aelodaeth, gyda'r nod o ffocysu aelodaeth a phresenoldeb mewn cyfarfodydd.</p>	Hydref 2019	<p>Cyfarwyddwr Meddygol a'r Cyfarwyddwr Strategol</p> <p>Cyfarwyddwr Nyrsio, Ansawdd a Phrofiad y Claf/Ysgrifennydd y Bwrdd/Cyfarwyddwr Meddygol a'r Cyfarwyddwr Strategol</p>
R5b	I wella ansawdd a llif sicrwydd diogelwch i'r QSEAC, dylai'r Bwrdd lechyd ailedrych ar gwmpas yr is-bwyllgor Arfer Clinigol Effeithiol.	Mae cylch gorchwyl yr is-bwyllgor Arfer Clinigol Effeithiol wedi'i adolygu, gan gynnwys aelodaeth; gyda phapur i'w gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.	Wedi'i gwblhau	Cyfarwyddwr Meddygol a'r Cyfarwyddwr Strategol
R6	Er mwyn cefnogi'r defnydd effeithiol o adnoddau timau corfforaethol cyfyngedig, dylai'r Bwrdd lechyd ystyried cyfuno trefniadau llywodraethu'r gwasanaethau sirol ac ysbytai yn unol â'r trefniadau sydd bellach ar waith ar gyfer yr Adolygiadau Perfformiad Gweithredol. Gellir gwneud hyn ar gyfnodau penodol yn ystod y flwyddyn.	<p>Er bod yr argymhelliad hwn wedi'i dderbyn, bydd angen ystyried y dull a'r trefniadau i hwyluso hyn ymhellach gyda'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau a chadeiryddion y gwahanol gyfarfodydd ansawdd.</p> <p>Cyfarfod i'w gynnal i weithio drwy'r trefniadau a'r opsiynau er mwyn gallu cyfuno cyfarfodydd llywodraethu yn effeithiol o bryd i'w gilydd drwy gydol y flwyddyn.</p>	Ebrill 2020	Cyfarwyddwr Nyrsio, Ansawdd a Phrofiad y Claf/Ysgrifennydd y Bwrdd

Cyf	Argymhelliad	Ymateb rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
R7	I gefnogi trefniadau llywodraethu'r gyfarwyddiaeth, dylai'r Bwrdd lechyd hwyluso'r broses o gyflwyno'r byrddau ansawdd a diogelwch sy'n seiliedig ar y gyfarwyddiaeth.	Sefydlwyd grŵp gorchwyl a gorffen sy'n cael ei gadeirio ar y cyd gan y Cyfarwyddwr Nyrsio a'r Cyfarwyddwr Cynllunio. Mae gwaith y grŵp gorchwyl a gorffen wedi bod yn hwylus. Mae cynllun prosiect ar waith sy'n cynnwys cytuno ar y dangosyddion blaenoriaeth i'w poblogi a'u cyflwyno i gyfarwyddiaethau.	Ebrill 2020	Cyfarwyddwr Nyrsio, Ansawdd a Phrofiad y Claf/Ysgrifennydd y Bwrdd
R8	Er mwyn sicrhau y caiff ansawdd a diogelwch eu hystyried o safbwynt proffesiynol a gweithredol, mae angen i'r Cyfarwyddwr Meddygol a'r Cyfarwyddwr Strategaeth Glinigol sicrhau bod y Cyfarwyddwr Meddygol Cysylltiol (AMD) ar gyfer Ansawdd a Diogelwch yn y strwythur y gyfarwyddiaeth feddygol newydd yn gweithio'n agos gyda'r ddwy swydd AMD gweithredol newydd ar gyfer gofal sylfaenol ac eilaidd.	Bydd penodi AMD newydd ar gyfer ansawdd a diogelwch a rolau estynedig arweinwyr clinigol yn gweithio'n agos gyda'r ddwy swydd AMD gweithredol newydd ar gyfer gofal sylfaenol a gofal eilaidd. Bydd perthynas waith agos hefyd gyda'r Cyfarwyddwr Nyrsio Cynorthwyol ar gyfer Ansawdd a Sicrwydd a Phennaeth Llywodraethu ar gyfer Ansawdd a Sicrwydd	Hydref 2019	Cyfarwyddwr Meddygol a'r Cyfarwyddwr Strategol

Wales Audit Office  
24 Cathedral Road  
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone.: 029 2032 0660

E-mail: [info@audit.wales](mailto:info@audit.wales)

Website: [www.audit.wales](http://www.audit.wales)

Swyddfa Archwilio Cymru  
24 Heol y Gadeirlan  
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: [post@archwilio.cymru](mailto:post@archwilio.cymru)

Gwefan: [www.archwilio.cymru](http://www.archwilio.cymru)